# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ**

**Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 24 Ebrill 2018

Amser: 08.30 - 09.00

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Siân Wilkins (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Cwestiynodd Paul Davies nifer y datganiadau ysgrifenedig diweddar. Roedd yn credu y dylai'r datganiad ynghylch yr 'Adolygiad Cyflenwad Tai Fforddiadwy', a gyhoeddwyd fel datganiad ysgrifenedig ddoe, fod wedi bod yn ddatganiad llafar. Cytunodd Arweinydd y Tŷ i edrych ar y mater ymhellach.

**Dydd Mawrth**

- Byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) yn digwydd yn ystod trafodion Cyfnod 3.

- Cadarnhaodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r pleidleisio ar bob eitem arall o fusnes yn cael ei gynnal cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau.

- Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y byddai egwyl o 10 munud cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau.

**Dydd Mercher**

- Byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

Tynnodd Arweinydd y Tŷ sylw'r Rheolwyr Busnes at y ffaith y bydd hi'n ateb y Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 1 Mai oherwydd y bydd y Prif Weinidog dramor.

### 3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 2 Mai 2018 –**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad 01-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9 (15 munud)
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)~~ – *gohiriwyd tan 9 Mai*

**Dydd Mercher 9 Mai 2018 –**

- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)~~ – *gohiriwyd tan 16 Mai*

**Dydd Mercher 16 Mai 2018 –**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

### 3.4 Dadl Aelodau: Dewis y Cynnig ar gyfer y Ddadl

- Dewisodd Rheolwyr Busnes y cynnig canlynol ar gyfer dadl ar 2 Mai 2018

**NNDM6695**

**Jane Hutt**

**Jenny Rathbone**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi gwaith ymchwil gan Plan International UK ar dlodi misglwyf a stigma, sy'n amcangyfrif bod un ym mhob 10 o ferched yn y DU wedi methu â fforddio cynhyrchion misglwyf.

2. Yn croesawu'r camau y mae sefydliadau yng Nghymru yn eu cymryd, gan gynnwys Periods in Poverty, Wings Cymru, The Red Box Project, Ymddiriedolaeth Trussell ac eraill, i fynd i'r afael â mater hwn.

3. Yn nodi'r adroddiad terfynol gan weithgor craffu cyngor Rhondda Cynon Taf a sefydlwyd i ddelio â darparu cynhyrchion misglwyf am ddim mewn ysgolion.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ystyried ymchwil presennol a newydd ar effaith bosibl tlodi misglwyf a stigma ar ddysgu;

b) ystyried galwadau i wella addysg ar y pwnc a chynnig cynhyrchion misglwyf am ddim mewn sefydliadau addysg; ac

c) nodi ffyrdd i sicrhau bod cynhyrchion misglwyf ar gael i fanciau bwyd Cymru.

Plan International UK - 1 in 10 girls have been unable to afford sanitary wear (Saesneg yn unig)

Cyngor Rhondda Cynon Taf – Adroddiad terfynol gan y gweithgor craffu sy'n ymdrin â darparu cynhyrchion misglwyf am ddim mewn ysgolion (Saesneg yn unig)

**Cefnogir gan:**

**John Griffiths**

**Julie Morgan**

**Jack Sargeant**

**Dawn Bowden**

**Siân Gwenllian**

**Jayne Bryant**

**Vikki Howells**

**Simon Thomas**

**Mike Hedges**

**Mick Antoniw**

**David Rees**

**Leanne Wood**

- Cytunodd Rheolwyr Busnes i gynnal y Ddadl Aelodau nesaf ar 16 Mai 2018, a dewiswyd y cynnig a ganlyn:

**NNDM6682**

**Hefin David**

**Rhun ap Iorwerth**

**Dawn Bowden**

**Angela Burns**

**Mark Isherwood**

**Mandy Jones**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu adroddiad diweddar gan Bowel Cancer UK a Beating Bowel Cancer sy'n tynnu sylw at ddiagnosis cynnar a'i uchelgais o wella cyfraddau goroesi pobl y mae canser y coluddyn yn effeithio arnynt.

2. Yn cydnabod cyfraniad dewr cleifion canser y coluddyn yng Nghymru o ran codi ymwybyddiaeth o'r clefyd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o ran gwella canlyniadau yn sgil galw cynyddol am ddiagnosis, o fewn cyfyngiadau'r gwasanaeth presennol.

3. Yn cydnabod mai canser y coluddyn yw'r canser sy'n lladd yr ail nifer fwyaf o bobl yng Nghymru ac yn cydnabod yr effaith a gaiff diagnosis cynnar ar gyfraddau goroesi a phwysigrwydd annog y cyhoedd i fanteisio ar gyfleoedd i sgrinio eu coluddion gan fod y niferoedd sy'n cael eu sgrinio wedi gostwng 1 y cant yn y 12 mis diwethaf.

4. Yn croesawu cyflwyno prawf imiwnogemegol ysgarthion (FIT) symlach a mwy cywir fel rhan o'r rhaglen profi'r coluddyn a'r potensial i wella cyfraddau goroesi canser y coluddyn.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhaglen sgrinio canser y coluddyn y gall gyrraedd ei photensial llawn ymdrin â materion o amgylch:

a) y trothwy arfaethedig ar gyfer prawf imiwnogemegol ysgarthion i'w gyflwyno yn 2019;

b) heriau sy'n bodoli o fewn gwasanaethau endosgopi a phatholeg i sicrhau y gellir cyflwyno prawf imiwnogemegol ysgarthion yn y ffordd orau bosibl;

c) angen i leihau'r oedran sgrinio cymwys o 60 i 50.

Spotlight on Bowel Cancer in Wales - Early Diagnosis Saves Lives (Saesneg yn unig)

**Cefnogir gan**

Neil Hamilton

## 4 Pwyllgorau

### 4.1 Cais gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i ymweld â San Steffan

Cytunodd Rheolwyr Busnes â'r cais.

## 5 Y Pwyllgor Busnes

### 5.1 Coladu canllawiau a gyhoeddir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'n ddefnyddiol crynhoi a chyhoeddi'r canllawiau.

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cyflwyno papur sy'n adolygu ac yn diweddaru'r holl ganllawiau cyfredol ac yn drafftio canllawiau newydd yn ôl yr angen.

## 6 Rheolau Sefydlog

### 6.1 Adolygu'r Rheolau Sefydlog

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau, yn arbennig er mwyn ystyried a ddylid adolygu cyfansoddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn sgil cyflwyno'r offeryn statudol mewn perthynas â Brexit. Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid ystyried hyn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch adolygu'r Rheolau Sefydlog.